# Aberdaron i Borth Meudwy ac Ynys Enlli

**Lleoliadau Stampiau:** Eglwys Hywyn Sant, Aberdaron. Capel Ynys Enlli.



1. Parciwch ym maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (bydd angen arian parod neu aelodaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol arnoch i barcio), cerddwch tuag at yr adeiladau a throwch i'r dde i groesi'r bont dros y ffordd. Dilynwch y ffordd o gwmpas i'r chwith tan i chi gyrraedd eglwys Sant Hywyn, Aberdaron.

**Mae safle Sant Hywyn yn dyddio'n ôl i'r 5ed/7fed ganrif. Yn yr eglwys, mae cerrig beddi dau offeiriad ag arysgrifau Lladin arnynt sy'n dyddio'n ôl i'r 5ed/6ed ganrif. Adeiladwyd yr eglwys yn y 12fed ganrif ar adeg pan oedd Brenin Gwynedd yn adeiladu strwythurau cerrig cadarn yn lle llawer o'r eglwysi pren. Ychwanegwyd ail gorff i'r eglwys ar ddiwedd y 15fed ganrif, ond yn anffodus aeth yr eglwys yn adfail tan y 19eg ganrif pan gafodd ei hadnewyddu, ac mae wedi cael ei defnyddio byth ers hynny. Mae eglwys Sant Hywyn wedi bod yn hafan bwysig erioed, nid yn unig i bererinion oedd yn aros i groesi i Ynys Enlli, ond hefyd i Frenhinoedd! Rhoddodd canoniaid eglwys Sant Hywyn gwch i Gruffydd ap Cynan er mwyn iddo fynd draw i Iwerddon i ddianc rhag y Normaniaid ym 1094.** **Rhagor o wybodaeth.**


2. Wedi i chi ymweld â'r eglwys, gallwch chi naill ai gerdded allan o'r eglwys ac i'r chwith i lawr ramp i'r traeth, cyn troi i'r dde a cherdded am tua 100 metr cyn croesi sianel fach i gyrraedd dechrau amddiffynfeydd môr creigiog, neu gallwch chi ddychwelyd i faes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a cherdded allan o gefn y maes parcio (gan osgoi'r sianel) i'r traeth at ddechrau'r creigiau. Pan fo'r llanw'n isel, gallwch chi gerdded o flaen clogfeini i gyrraedd Porth Simdde. Pan fo'r llanw'n uwch, cerddwch i fyny'r llethr y tu ôl i'r creigiau ac, unwaith y byddwch chi ar y llwybr, trowch i'r dde a cherddwch i fyny'r allt i gyrraedd giât sy'n arwain at faes parcio bach a'r ffordd.



3. Unwaith y byddwch chi wedi mynd trwy'r giât, trowch i'r chwith ac ewch drwy giât arall ymlaen i lwybr troed llydan sy'n arwain ar hyd top y bryn yn baralel i'r traeth (gan ddilyn arwyddion Llwybr yr Arfordir). Parhewch ar hyd y llwybr hwn, gan basio golygfan arbennig a mainc ag arysgrif arni.

4. Ewch drwy'r giât nesaf ac i lawr y grisiau cerrig at bont dros nant fach ac ar hyd bae Porth Simdde. Cyn i chi ddod at y traeth, mae llwybr yn arwain i'r dde i fyny grisiau pren serth. Ar ôl i chi fod ar y traeth, dewch yn ôl at y llwybr hwn.

5. Ar dop y grisiau pren serth (sy'n arwain i ffwrdd o Borth Simdde), mae giât mochyn yn mynd â chi ar lwybr rhwng ffensys, gyda'r môr ar eich ochr chwith. Cadwch at y llwybr hwn am 1km, gan basio mainc ar eich ffordd a mynd trwy giât mochyn arall, yna giât mochyn arall gyda giât fferm. Arhoswch i'r chwith ar y llwybr i fynd i lawr grisiau cerrig a thrwy giât mochyn i Borth Meudwy (dyma lle mae'r cwch yn croesi draw i Ynys Enlli).



**Mae Porth Meudwy yn gildraeth pysgota bach sydd wedi cael ei ddefnyddio ers blynyddoedd maith fel man cychwyn i gychod sy'n croesi draw i Ynys Enlli. Mae'n gildraeth cysgodol sy'n ei wneud yn fan perffaith i ddechrau'r siwrne.**

I archebu croesiad, ffoniwch neu anfonwch neges destun at Colin ar 07971 769895, a gadewch neges gan gynnwys eich rhif ffôn.

https://bardseyboattrips.com/